



Cofnodion Cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd, Bangor, **nos Lun, 25<sup>ain</sup> o Fedi, 2017** am 8.30 y.h.

**PRESENNOL :-**

Ei Deilyngdod y Maer, y Cynghorydd Derek Hainge			
Y Dirprwy Faer, y Cynghorydd J Wynn Jones			
Y Cynghorwyr	G O Roberts (Cadeirydd)	Ifan James	N Pickavance
	Mrs L Day	Keith Jones	Gareth Roberts
	Dylan Fernley	J M Martin	Mair Rowlands
	Medwyn Hughes	Enid Parry	Luke Tugwell
	Owen Hurcum		

Swyddog : Mr Ian Jones, Clerc y Dref/Swyddog Cyllid

### 101/17 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Colin King, Conor Savage, Elin Walker Jones, J Wyn Williams a H Wynn Jones.

### 102/17 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim.

### 103/17 MATERION BRYS

Rhoddodd y Cynghorydd J Wynn Jones fanylion y bwriad arfaethedig i gau'r Gwasanaeth Fasgwlaidd yn Ysbyty Gwynedd a chanoli gwasanaeth Gogledd Cymru yn Ysbyty Glan Clwyd. Byddai hyn yn effeithio ar y gwasanaeth yn y Gogledd Orllewin a gallai ardaloedd eraill fod o dan fygythiad hefyd gan fod hwn yn rhan o wasanaeth integredig.

**PENDERFYNWYD:** fod Cyngor y Ddinas yn gwrthwynebu'n gryf symud y gwasanaeth hwn a gwasanaethau eraill o Ysbyty Gwynedd a bod Clerc y Dref yn mynegi'r farn hon i Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

### 104/17 CEISIADAU CYNLLUNIO

**PENDERFYNWYD :** Hysbysu Awdurdod Cynllunio Gwynedd mai'r canlynol yw sylwadau Cyngor y Ddinas ar y ceisiadau a restrir isod :-

**C17/0835/11MG** Materion a gadwyd yn ôl o ganiatâd amlinellol C14/1248/11/AM i godi 4 bloc o fflatiau yn cynnwys 70 uned byw. Jewsons, Penlon, Bangor. **Gwrthwynebiad ar y sail nad oes digon o lefydd parcio ar gael ar y safle na gerllaw; gydag ychwanegu llawr ychwanegol mae'n golygu gor-ddatblygu'r safle hwn ac nid yw yn gydnaws â'r ardal o'i amgylch; mae'r cais yn amrywio gymaint o'r hyn a gymeradwywyd yn wreiddiol fel ei fod yn amlwg yn cynrychioli cais newydd a dylai gael ei drin felly.**

**C17/0856/11/LL** Newidiadau ac estyniad i annedd presennol. Sorrento, Ffordd Glanaethwy. **Dim Gwrthwynebiad.**

**C17/0885/11/CC** Gwaith i goed. Yr Archddiacondy, Ffordd Belmont. **Dim Gwrthwynebiad.**

**C17/0886/11/LL** Newid defnydd fflat yn dŷ amfeddiannaeth. White Line, 289 Stryd Fawr. **Gwrthwynebiad ar y sail fod gormod o HMOs yn y Ward yn barod, mae'n golygu gor-ddatblygu'r safle hwn a byddai'n gwaethygu'r problemau parcio yn yr ardal hon sy'n orlawn yn barod.**

**C17/0895/11/MG** Codi Tŷ (materion a gadwyd yn ôl o dan ganiatâd rhif C17/0007/11/AM). 33 Tan y Graig. **Dim gwrthwynebiad ond dylid ystyried y ffaith fod yr ysgol mor agos pan mae'r gwaith adeiladu'n digwydd.**

### 105/17 MATERION PRIFFYRDD

Dim.

### 106/17 CEISIADAU TRWYDDEDU

**Deddf Trwyddedu 2013 - Trwydded Eiddo**, Savers, 202 Stryd Fawr, Bangor. **Dim gwrthwynebiad ar yr amod fod y newid mewn oriau yn debyg i siopau eraill yn y cyffiniau.**